Cylch Gorchwyl - Pwyllgor Rheoleiddio

Pwrpas

1. Diben y pwyllgor hwn yw ystyried a rhoi argymhellion i'r sefydliad ar faterion sy'n codi o ddull a gweithgareddau rheoleiddio Cymwysterau Cymru.

2. Rhaid i'r Bwrdd gymeradwyo ei argymhellion cyn cymryd unrhyw gamau, ac eithrio'r rhai a amlinellir yn adran 4 - Awdurdod Dirprwyedig.

3. Pan fydd materion rheoleiddio yn codi y mae angen rhoi sylw penodol iddynt, gelwir aelodaeth briodol ynghyd i ddelio â hynny fesul achos.

Rôl

4. Rôl y Pwyllgor Rheoleiddio yw:

   - darparu seinfwrdd ar gyfer datblygu polisïau rheoleiddio newydd;
   - darparu arweiniad ac argymhellion mewn perthynas â dulliau, fframwaith a pholisïau rheoleiddio;
   - adolygu priodoldeb ac effeithiolrwydd gweithgaredd rheoleiddio;
   - darparu goruchwyliaeth mewn perthynas â'r perthnasoedd â rheolyddion cymwysterau eraill;
   - ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'w argymhellion mewn perthynas ag anghydfod rheoleiddio;
   - sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gynnal adolygiad annibynnol o brosesau rheoleiddio'r sefydliad, lle gofynnir am un;
   - darparu seinfwrdd ar gyfer prosiectau ymchwil perthnasol;
   - monitro rheolaeth risg sy'n ymwneud â gweithgaredd rheoleiddio.

Awdurdod Dirprwyedig

5. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo i'r Pwyllgor Rheoleiddio yr hawl i gymeradwyo'r canlynol:

   - Newidiadau sylweddol i'r Amodau Cydnabod Safonol a'r Meini Prawf Cydnabod;
   - Polisi ar gymeradwyo Cymwysterau nad ydynt yn Flaenoriaethol;
   - Polisïau ar orfodi;
   - Polisi/polisïau ar drin cwynion (heblaw cwynion corfforaethol);
   - Adolygu polisïau rheoleiddio.

6. Dyfarniad y Pwyllgor yw penderfynu ar unrhyw beth newydd, dadleuol neu o arwyddocâd cenedlaethol arbennig sydd felly angen cymeradwyaeth y Bwrdd ac angen ei adrodd i Lywodraeth Cymru hefyd.

Aelodaeth a Phresenoldeb

7. Fel rheol bydd gan y Pwyllgor hyd at chwe aelod o'r Bwrdd gan gynnwys y Prif Weithredwr. Aelodau'r Pwyllgor Rheoleiddio yw:

   - Claire Morgan, Aelod o'r Bwrdd (Cadeirydd)
   - Isabel Nisbet, Aelod o'r Bwrdd
   - Caroline Burt, Aelod o'r Bwrdd
   - Arun Midha, Aelod o'r Bwrdd
   - David Jones, Aelod o'r Bwrdd
   - Philip Blaker – Prif Weithredwr

8. Penodir aelodau'r Pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd sy'n cadw'r hawl, o dan gynllun dirprwyo'r Bwrdd, i ychwanegu neu ddiswyddo aelodau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

9. Dylai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio fynychu'r Pwyllgor ond ni fydd yn aelod o'r pwyllgor. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i aelodau eraill o staff neu gynghorwyr allanol fod yn bresennol o bryd i'w gilydd i gynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau. Gellir cyfethol cynghorydd cyfreithiol i'r pwyllgor, os oes angen, yn ychwanegol at ei aelodaeth arferol.

10. Y **cworwm** ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor fydd tri aelod.

Cefnogaeth

11. **Cefnogir** y pwyllgor gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, a fydd yn gweithredu fel prif gyswllt y pwyllgor â'r sefydliad, gweinyddu'r ysgrifenyddiaeth, hwyluso sefydlu'r pwyllgor, a darparu cyngor a gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor (yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau llywodraethu'r sefydliad) mewn cyfarfodydd a rhyngddynt, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol yn cael eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd cyffredin ac arbennig.

Modus Operandi

12. Bydd y Pwyllgor yn **derbyn adroddiadau fel y bo'n briodol**, er enghraifft gan staff Gweithredol y sefydliad. Bydd yn adrodd i'r Bwrdd trwy ei gofnodion (a gyflwynir gan y Cadeirydd i'r Bwrdd), ac adroddiadau rheolaidd.

13. Cynigir y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod hyd at **5 gwaith y flwyddyn** mewn modd amserol. Gall y Pwyllgor weithredu a chwrdd tu allan i'r Pwyllgor ffurfiol lle bo hynny'n briodol i gyflawni ei fusnes.

14. Pan fo'r pwyllgor yn gweithredu mewn perthynas â phrosesau gorfodi, gall argymhellion y Pwyllgor hwn, a chymeradwyaeth y Bwrdd iddynt, fod yn destun apêl gan bobl yr effeithir arnynt a bydd adolygydd annibynnol yn eu hadolygu pan fydd galw am adolygiad o'r fath ac y mae yn unol â'r polisi perthnasol.

Tachwedd 2019